

CYFARFOD	PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU
DYDDIAD	29 GORFFENNAF 2019
TEITL	Cyfrifon Terfynol Cronfa Bensiwn Gwynedd am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019 ac Archwiliad perthnasol
PWRPAS	Cyflwyno – <ul style="list-style-type: none"> • Datganiad o'r Cyfrifon ôl-Archwiliad; • Adroddiad 'ISA260' Deloitte; • Llythyr Cynrychiolaeth. (Atodiad 1)
ARGYMHELLIAD	Ystyried a chymeradwyo'r wybodaeth cyn awdurdodi'r Cadeirydd i ardystio'r llythyr.
AWDUR	Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid

1. CYFRIFON 2018/19

Cyflwyno Datganiad o Gyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd 2018/19 (ol- archwiliad) sy'n rhoi manylion am weithgareddau ariannol y Gronfa yn ystod y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2019.

2. ARCHWILIAD GAN DELOITTE AR RAN ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU

Mae'r cyfrifon hyn yn destun archwiliad gan gwmni Deloitte, a chyflwynir yma adroddiad 'ISA260' gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn manylu ar brif ddarganfyddiadau Deloitte.

3. ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ystyried a chymeradwyo'r –

- Datganiad o Gyfrifon 2018/19 (ôl-archwiliad) y Gronfa Bensiwn
- Adroddiad 'ISA260' gan Deloitte ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd

4. LLYTHYR CYNRYCHIOLAETH

Gofynnir i Gadeirydd y cyfarfod, ynghyd â'r Pennaeth Cyllid, ardystio'r Llythyr Cynrychiolaeth (Atodiad 1 i adroddiad Deloitte) wedi i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu gymeradwyo'r uchod.

5. TYSTYSGRIF YR ARCHWILYDD PENODEDIG

Wedi iddo dderbyn y Llythyr Cynrychiolaeth wedi'i ardystio gan y Cadeirydd a'r Pennaeth Cyllid, bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru (Adrian Crompton) yn cyhoeddi'r tystysgrif ar y cyfrifon.

6. CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL Y GRONFA BENSIWN

Bydd Datganiad o Gyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd hefyd yn cael ei gyflwyno'n ffurfiol i'r holl gyflogwyr yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Gronfa Bensiwn ar 24 Hydref 2019.